HCGAM

HWB CARBON GWYNEDD A MÔN

# Fframwaith
# ‘Hwb Carbon Gwynedd a Môn’
# Framework

“Cefnogi busnesau a mudiadau yng Ngwynedd ac Ynys Môn i wneud y mwyaf o’r cyfleon yn y maes carbon er budd economaidd, amgylcheddol a chymunedol i’r ardal.”

## Cefndir

Fel gweddill o Gymru a'r Byd, mae trigolion a busnesau Gwynedd a Môn ar groesffordd tyngedfennol o ran penderfynu pa gamau brys a phwrpasol dylid eu cymryd i arafu ac atal y cynnydd mewn tymheredd cyfartalog y ddaear ac i geisio lleihau goblygiadau dinistriol newid hinsawdd ar y blaned.

Yn Ebrill 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths, ei bod yn argyfwng hinsawdd. Nododd bod heriau newid hinsawdd yn bygwth iechyd, economi, seilwaith ac amgylchedd naturiol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo bydd y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030 a bydd yn cydweithio ag eraill, gan gynnwys academia, diwydiant a'r trydydd sector, i helpu rhannau eraill o'r economi i droi oddi wrth danwyddau ffosil.

Mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn cyfarwyddo Llywodraeth Cymru i ystyried problemau parhaus hirdymor fel newid hinsawdd.

Cydnabyddir ar y cyfan bod yr ymdrechion i ddatgarboneiddio a chyrraedd sero net yn gyfrifoldeb i bawb.

Mae Llywodraeth Prydain hefyd wedi ymrwymo i'r Deyrnas Gyfunol fod yn sero net erbyn 2050.

Er bod rhai yn teimlo bod yr hyn gall Gwynedd a Môn gyflawni fel ardal yn gymharol fach o gymharu ag ardrawiad gweithgareddau diwydiannau rhyngwladol megis hedfan a chynhyrchu ynni, mae diddordeb ac awch ymysg mwyafrif o fusnesau a mudiadau yr ardal i ddeall pa gamau y gallent gymryd tuag at liniaru ac atal effeithiau negyddol newid hinsawdd, drwy ddatgarboneiddio a chloi carbon.


Rhwng Medi 2022 a Mawrth 2023, comisiynodd 'Arloesi Gwynedd Wledig' gwmni Grŵp Ymgynghori Lafan i ddod ag ystod eang o fuddiolwyr Gwynedd a Môn at ei gilydd i wyntyllu ac ystyried ymatebion posib i'r bygythiad o ffermydd gael eu prynu gan gwmnïau allanol er mwyn eu plannu efo coed dan gefnogaeth ariannol cynllun Glastir, ac yna pecynnu credydau carbon o'r tir i'w gwerthu ar y farchnad garbon. Brîff y gwaith oedd:

*"Adnabod y model gorau i alluogi perchnogaeth leol o'r cyfleon masnachol a'r buddion cymunedol i blannu coed i gloi Carbon yng Ngwynedd."*

Mewn cyfres o 3 gweithdy a gynhalwyd yn Nant Gwrtheyrn a Phlas Tan y Bwlch, eginodd y cysyniad o 'Hwb Carbon Gwynedd.' Roedd hyn yn ymateb i'r sylweddoliad bod llawer o ddarpariaethau a strwythyrau yn bodoli eisioes ar gyfer busnesau i fanteisio o gyfleon yn y farchnad Carbon, ac mai gwraidd yr her yw gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y cyfleon hynny, a chreu adnodd annibynnol a dibynadwy sy'n gallu cefnogi a thywys

busnesau a mudiadau sydd eisiau bod yn ran o'r farchnad a'r ymdrechion i ddatgarboneiddio.

Roedd cydnabyddiaeth hefyd bod yr her carbon yn cynnig cyfleon i Wynedd a Môn fel ardal wledig sy'n meddu ar gyfoeth o adnoddau naturiol. Teimlai nifer bod angen symud ar fyrder i sicrhau bod cymunedau yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleon hyn, tra hefyd ddal gafael ar reolaeth a'r buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a ddaw.








**Uchod: Lluniau o'r gweithdai 'Arloesi Gwynedd Wledig' yn ystod Gaeaf 2022-23.**

## Amcanion

Bydd gan yr Hwb 6 prif amcan:

1. Monitro, dadansoddi a dehongli perfformiad Gwynedd ac Ynys Môn fel ardal yng nghyd-destun allyriant Carbon.

2. Darparu adnoddau defnyddiol i fusnesau a mudiadau i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r maes carbon.

3. Darparu cefnogaeth i fusnesau a mudiadau i ddatgarboneiddio ac i allu manteisio ar gyfleon masnachol yn y maes.

4. Cyfeillio busnesau/mudiadau sydd eisiau lleihau eu ôl-troed carbon gyda busnesau/mudiadau sy'n rheoli tir y gellir ei ddefnyddio i amsugno a chloi carbon dan drefn achrededig annibynnol.

5. Cefnogi ac hwyluso rhwydweithio.

6. Arwyddo busnesau, mudiadau ac unigolion i gefnogaeth perthnasol pellach sydd ar gael, megis cynnal dadansoddiad cylch bywyd.

## Llywodraethiant

Caiff yr Hwb ei lywodraethu ar sail yr egwyddorion yma:

1. **Arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn**
2. **Rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir**
3. **Ffocws a chyfeiriad clir**
4. **Darparu yn y Gymraeg a Saesneg.**
5. **Gweithredu gydag uniondeb a gwrthrychedd**
6. **Bod yn agored, annibynnol ac yn atebol**
7. **Yn ariannol gadarn a darbodus**

Bydd yr Hwb yn atebol i Fwrdd Hwb Carbon Gwynedd ac Ynys Môn, fydd yn cynnwys cynrychiolaeth leol o fusnesau a mudiadau, yn ogystal â'r prif noddwr/noddwyr. Bydd cael hyder y cymunedau lleol a rhanddeiliaid amrywiol yn hanfodol er mwyn i'r Hwb gyflawni ei amcanion.

Bydd dogfen lywodraethu yn cael ei baratoi a'i awdurdodi gan y Bwrdd, a bydd hon yn cynnwys rheolau a chanllawiau ar gyfer rhedeg yr Hwb. Bydd yn cynnwys:

- Disgrifiad o nôd ac amcanion yr Hwb.
- Sut bydd yr Hwb yn cyflawni ei amcanion.
- Pwy sy'n gyfrifol am drosolwg strategol yr Hwb.
- Amlinelliad clir o'r drefn ar gyfer newid nôd a llywodraethiant yr Hwb.
- Proses ar gyfer cau yr Hwb os dymunir gwneud hynny.

Dylai hefyd gynnwys manylion gweinyddol:

- Trefniadau mewnol ar gyfer cyfarfod Bwrdd, pleidleisio a rheoli cyllid.
- Aelodaeth yr Hwb/Clwstwr.
- Proses apwyntio/gwaredu aelodau'r Bwrdd/Ymddiriedolwyr.
- Canllawiau ar berthynas aelodau'r Bwrdd/Ymddiriedolwyr gyda'r Hwb.

Yn ddibynnol ar union strwythr yr Hwb, fyddai angen ymchwilio i union drefniadau llywodraethiant yn drylwyr mewn ymgynghoriad â'r buddiolwyr, a byddai angen dogfennau pellach ar gyfer yr Hwb megis Cyfansoddiad.

Awgrymir bod Bwrdd yr Hwb yn arwain ar broses o lunio 'Startegaeth Carbon' i Wynedd ac Ynys Môn, gan anelu i'w gyhoeddi o fewn 12 mis i sefydlu'r Hwb. Bydd y Strategaeth yn llywio gorchwyl a gwaith yr Hwb. Gallai'r Hwb fod yn gyfrifol am adrodd nôl am gynnydd gyda'r strategaeth, a'i adolygu ar ôl 5 mlynedd.

Bydd angen i'r sector mentrau cymunedol bywiog yn yr ardal gael llais cryf o fewn strwythr yr Hwb, oherwydd arloesedd llwyddiannus sawl menter gyda ymgyrchoedd net sero lleol iawn, ac er mwyn manteisio ar eu rhwydweithiau cymunedol ar lawr gwlad.

Bydd cyfle o fewn y strategaeth i'r ardal benu targedau sero net ei hun os oes cefnogaeth i'r syniad. Oherwydd cyfoeth yr ardal o adnoddau naturiol, mae rhai wedi awgrymu bod cyfle i Wynedd a Môn fod ar flaen y gad yn cyrraedd sero net, fyddai'n help i ffyniant sawl diwydiant megis twristiaeth, amaeth, prosesu bwyd, cynhyrchu ynni a rhagor.

Bydd angen trafodaeth pellach am berfformiad cynaladwyedd yr Hwb. Yn naturiol, dylai anelu fod yn sero net o'r dydd cyntaf.

Yn ariannol, bydd angen pecyn nawdd sylweddol i'w sefydlu. Mae amcangyfrifon dechreuol yn awgrymu bydd angen cyllid o £250-300k y flwyddyn i'w redeg gyda tîm o 3 aelod llawn amser o staff megis rheolydd, gweinyddydd a swyddog ymgysylltu, ac arian i greu a darparu adnoddau.

Bwriad tymor canolig yr Hwb yw bod yn led hunan-gynaladwy, ac yn hunan-gynaladwy ar y cyfan yn y tymor hir, gyda canran o'r incwm yn deillio o fusnesau a mudiadau lleol yn tanysgrifiadau a/neu'n talu tâl aelodaeth. Fe allai rhain amrywio yn unol a maint y corff/busnes, ac byddai parodrwydd i gefnogi yr Hwb yn adlewyrchiad o'i werth canfyddiedig.

## Sut bydd yr Hwb yn gwireddu

**Monitro, dadansoddi a dehongli perfformiad Gwynedd ac Ynys Môn fel ardal yng nghyd-destun allyriant Carbon.**

1. Cynnal arolwg a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar sefyllfa Carbon yng Ngwynedd, fydd yn cynnwys dangosyddion cydnabyddiedig carbon yn ogystal â rhai eraill megis nifer o swyddi mae'r sector yn ei gynnal, gwerth y sector i'r economi leol… Y canlyniadau yma fydd yn llywio gweithagredd yr Hwb ac yn sylfaen i ddehongli os yw'n llwyddo neu beidio.

**Darparu adnoddau defnyddiol i fusnesau a mudiadau i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r maes carbon.**

2. Creu llyfrgell o adnoddau cyfredol a dibynadwy i fusnesau a mudiadau i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, gan ganiatau iddynt fod yn fwy hyddysg wrth wneud penderfyniadau. Megis, dogfennau templed, taenlenni ar gyfer modelu ariannol a carbon, astudiaethau achos, taflenni gwybodaeth, fideos technegol… gan ddefnyddio fformat digidol yn bennaf.

3. Peilota a threialu 2 safle ar draws Gwynedd a Môn er mwyn arddangos a rhannu arferion da a rhaeadru gwersi o wneud. *(Mae'n werth nodi y gwnaed cynigion gan fusnesau lleol yn ystod datblygiad cysyniad yr Hwb, i gyfrannu adnoddau ac arbenigedd amrywiol tuag at beilot.)*

**Darparu cefnogaeth i fusnesau a mudiadau i ddatgarboneiddio ac i allu manteisio ar gyfleon masnachol yn y maes.**

4. Darparu rhaglen o weithdai i hyfforddi cyrff a busnesau am wahanol elfennau o Garbon megis pecynnu a gwerthu credydau carbon, masnachu credydau carbon, mesur a lleihau ôl-troed carbon…

5. Bod yn proactif i gyfleon yn y maes carbon allai fanteisio economi, amgylchedd a chymunedau Gwynedd a Môn.

**Cefnogi ac hwyluso rhwydweithio.**

6. Sefydlu 'Clwstwr Carbon Gwynedd' i ddarparu cyfleon rhwydweithio i fusnesau a mudiadau sy'n weithredol yn y maes carbon yng Ngwynedd.

7. Ymgysylltu gyda ysgolion a cholegau Gwynedd i amlygu cyfleon gyrfa a busnes yn y maes carbon.

8. Bwydo sylwadau i gyrff a mudiadau perthnasol eraill, yn leol ac yn genedlaethol, i amlygu beth yw'r sefyllfa ar lawr ddaear yn ôl profiad yr Hwb. Bydd yr Hwb yn ceisio adnabod canlyniadau negyddol anfwriadol posibl o bolisïau ac ymyriadau yn y sector garbon, gan weithio ar atebion posibl i'w lliniaru neu eu dileu.

**Arwyddo busnesau, mudiadau ac unigolion i gefnogaeth perthnasol pellach sydd ar gael.**

9. Darparu ac arwyddo ymyraethau cofleidiol i fusnesau, yn cynnwys perchnogion tir, sydd wrthi mynd i'r afael â'u materion carbon. Hyn yn cynnwys arwyddo i brosiectau a mudiadau eraill os yn berthnasol megis Yr Ymddiriedolaeth Carbon, Cyswllt Ffermio, Cwmpas…. darparu gwasanaeth mentora, cysylltu busnesau sy'n gwynebu heriau tebyg gyda'i gilydd, cynnal sesiynau byr gyda arbenigwyr megis "Syrjyris Carbon," ac ymweliadau ar safleoedd busnesau drwy "Glinigau Carbon."

**Cyfeillio busnesau/mudiadau sydd eisiau lleihau eu ôl-troed carbon gyda busnesau/mudiadau sy'n rheoli tir y gellir ei reoli i amsugno a chloi carbon dan drefn achrededig annibynnol.**

10. Rhedeg gwasanaeth arleosol "Cyfeillio Carbon" fydd yn cyflwyno busnesau/mudiadau sydd eisiau lleihau eu ôl-troed carbon gyda busnesau/mudiadau sy'n rheoli tir y gellir ei reoli i amsugno a chloi carbon dan drefn achrededig annibynnol. I gefnogi y dasg barhaus yma, bydd yr Hwb yn cynnal a chadw cyfeiriadur agored o fusnesau yng Ngwynedd sydd wedi ac eisiau cymryd camau i leihau allyriant Carbon, ynghyd a chyfeiriadur agored byw o berchnogion tir sy'n barod i gytuno ac ymrwymo eu tir i gynlluniau cloi Carbon.

11. Amlygu cyfleon i ychwanegu gwerth yn sgîl gweithgareddau yn y maes carbon, megis creu cyfleon i greu cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth, cryfhau brandiau, darparu a gwella hygyrchedd i lecynnau gwyrdd i'r cyhoedd hamddena, taclo problemau llifogydd ac erydiad pridd yr un pryd, ffynhonell cymunedol o fwyd, a chreu tirlun atynniadol.

## Cefnogaeth

Mae'r canlynol wedi mynegi diddordeb mewn gweld cysyniad Hwb Carbon Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei ddatblygu ymhellach:

- Clwstwr o fusnesau o Wynedd sydd eisioes yn arloesi yn y maes carbon ac yn awyddus i weld sefyldiad Hwb Carbon Gwynedd.  Yn cynnwys
- Grwpiau cymunedol yn cynnwys…
- Nifer o unigolion blaengar sy'n arbenigo a/neu'n ymddiddori yn y maes carbon.  Yn cynnwys…
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Arloesi Gwynedd Wledig / Arloesi Môn, aelodau y Grŵpiau LAG yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Menter Môn
- Prifysgol Bangor
- Coleg Glynllfion (rhan o Grŵp Llandrillo Menai)
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Nant Gwrtheyrn
- Undeb Amaethwyr Cymru
- NFU Cymru
- Adra